

## Gweithiwr Cymdeithasol (Lefel 3) DART

## Cyflog: £37,938 - £40,476

Mae cyfle cyffrous wedi codi i fod yn rhan o dîm newydd yn Sir y Fflint. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi creu Tîm Rhyddhau, Asesu ac Adfer i ddarparu cefnogaeth i ddinasyddion Sir y Fflint ar gyfer llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (D2RA), gan gynnwys eu rhyddhau o ysbytai acíwt a chymunedol lleol, gwelyau cam i lawr ac uned D2RA arbenigol gan ddarparu cefnogaeth amlddisgyblaethol o'r radd flaenaf.

Bydd yr ymgeisydd yn gweithio'n holistig gyda dinasyddion yn cyd-gynhyrchu ymyraethau yn seiliedig ar gryfderau a chanlyniadau, gan ymgorffori egwyddorion allweddol SSWBA 2014. Mae'r gwaith yn brysur ac yn wobrwyol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer creadigol ac arloesol, drwy waith amlddisgyblaethol. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr iechyd i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n hyblyg ar draws y gwahanol lwybrau a safleoedd allweddol y mae'r tîm yn gyfrifol amdanynt. Mae'r tîm yn gweithio o dan bolisi gweithio'n hybrid.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â: Ben James, Rheolwr Tîm ben.james@flintshire.gov.uk

Byddwn yn ystyried penodiad rhan-amser, rhannu'r swydd neu weithio'n hyblyg, ac mae ein polisïau'n hwyluso cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gyda channoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd datblygu a llawer mwy.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council